

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig | Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Fframweithiau cyffredin y DU ar amaethyddiaeth a'r amgylchedd | UK common frameworks on agriculture and environment

UK 14

Ymateb gan : Comisiynydd y Gymraeg

Evidence from : Welsh Language Commissioner

Fframweithiau cyffredin y DU ar amaethyddiaeth a'r amgylchedd

Diolch ichi am y cyfle i ymateb i'ch ymchwiliad. Hoffwn bwysleisio'r pwyntiau canlynol.

- Ni ddymunaf fynegi barn o blaid neu yn erbyn y cynigion i ddatblygu fframweithiau cyffredin yn y Deyrnas Gyfunol yn dilyn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Er hynny, mae'n glir bod y fframweithiau hyn yn effeithio ar y sectorau sy'n bwysig i siaradwyr y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gallu cynnwys gofynion o ran y Gymraeg ymysg amodau'r cymorth sydd ar gael trwy'r cronfeydd Ewropeaidd o dan y fframweithiau hyn.
- Mae'n hanfodol bod hyn yn dal yn bosibl os datblygir fframweithiau cyffredin newydd ar gyfer gwledydd y DG yn dilyn Brexit. Dylai'r broses o gytuno, cynllunio a gweithredu'r fframweithiau cyffredin gydnabod natur Cymru fel gwlad ddwyieithog. Ni ddylai'r fframweithiau cyffredin amharu mewn unrhyw ffordd ar allu'r polisïau Cymreig yn y sectorau a meysydd dan sylw i gefnogi'r iaith Gymraeg ac anghenion ei siaradwyr.
- Mae'r trafodaethau am ddyfodol y fframweithiau cyffredin yn cynnig cyfle gwerthfawr i ailymweld â gweithdrefnau presennol y ffrydiau cyllido o ran yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg. Gellid ystyried y testun, dulliau gweithredu a'r dull o werthuso gofynion ac amcanion o ran y Gymraeg. Gellir cyflawni hyn trwy gynnal adolygiad pwrpasol o'r trefniadau presennol ar draws gwahanol gronfeydd Ewropeaidd.

1. Cyd-destun yr ymateb hwn

Prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny bydd y Comisiynydd yn ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal, bydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau rhoddir dyletswyddau statudol ar sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg. Un o amcanion strategol y Comisiynydd yn ogystal yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi a dyna a wneir yma mewn perthynas â chylch gorchwyl yr ymchwiliad. Ceir rhagor o wybodaeth am waith y Comisiynydd ar y wefan www.comisiynyddygyymraeg.cymru.

2. Perthnasedd y fframweithiau Ewropeaidd presennol i'r Gymraeg

Cyfeiriais eisoes mewn mannau eraill at y cysylltiad rhwng y Gymraeg a'r economi; ac at bwysigrwydd sectorau penodol megis y sector amaeth i'r Gymraeg a'i siaradwyr.¹ Tanlinellais hefyd y gallasai Brexit gael goblygiadau deublyg i siaradwyr y Gymraeg a'r economi leol a hynny oherwydd newidiadau posibl i gefnogaeth i ffermwyr, cefn gwlad a chymunedau gwledig sydd ar gael ar hyn o bryd trwy raglenni'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Mae'r pryderon hyn hefyd yn berthnasol i sectorau eraill sy'n bwysig ar gyfer siaradwyr y Gymraeg ac sydd ar hyn o bryd yn derbyn cefnogaeth o dan fframweithiau Ewropeaidd, e.e. sector creadigol a sector addysg a hyfforddiant ôl-16.

Mae'r fframweithiau Ewropeaidd hefyd yn cadarnhau'r egwyddorion a'r blaenoriaethau sydd wrth sail y rhaglenni cymorth. O dan reoliadau Ewropeaidd, mae rhaid integreiddio 'themâu trawsbynciol' yn y gwaith o gynllunio a datblygu'r gweithgareddau a ariennir trwy'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI), sy'n cynnwys Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD).^{2 3} Er bod rhai themâu trawsbynciol yn ofynnol (megis Cyfle Cyfartal), mae modd ychwanegu atynt yn unol â pholisïau cydraddoldeb ar y lefel Brydeinig ac yng Nghymru.

Nid yw hi'n ofynnol o dan reoliadau Ewropeaidd i ystyried iaith yng nghyd-destun y themâu hyn. Fodd bynnag, penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai'r amcanion cydraddoldeb ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru gynnwys 'adnabod a chefnogi cyfleoedd i hybu a

¹ Gweler fy ymateb diweddar i ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i [dlodi yng Nghymru: gwneud i'r economi weithio i'r rheini sydd ag incwm isel](#); ac ymchwiliad Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ['Gwydnwch a pharodrwydd: ymateb gweinyddol ac ariannol Llywodraeth Cymru i Brexit'](#).

² Yn ogystal â'r cronfeydd eraill: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF).

³ Hefyd, ar gyfer rhaglenni datblygu gwledig o dan PAC mae'r blaenoriaethau'n cynnwys cyhwysiant cymdeithasol, trechu tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig. https://ec.europa.eu/agriculture/rural-development-2014-2020_en

hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg'.⁴ Yn ôl canllawiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) gall gweithrediadau a ariennir gyfrannu at yr amcanion hyn trwy, e.e:

- sicrhau bod y gwasanaethau Cymraeg yn cael eu hyrwyddo yn weithredol;
- sicrhau bod y gweithrediadau yn cyfrannu at gynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a defnydd o'r Gymraeg gan gyfranogwyr; gwella sgiliau Cymraeg; a chyfleoedd economaidd gwell mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith;
- monitro cynnydd a chanlyniadau cadarnhaol i'r iaith Gymraeg.

Gallant hefyd 'sicrhau bod yr holl weithrediadau a gwasanaethau a gyllidir ... ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a bod y gwasanaethau hyn yn cael eu hyrwyddo'n weithredol'.⁵

3. Goblygiadau posibl

Ni ddymunaf fynegi barn o blaid neu yn erbyn y cynigion i ddatblygu fframweithiau cyffredin yn y Deyrnas Gyfunol yn dilyn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Er hyn, mae'n glir bod y fframweithiau hyn yn effeithio ar y sectorau sy'n bwysig i siaradwyr y Gymraeg, yn enwedig y sector amaeth. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gallu cynnwys gofynion o ran y Gymraeg ymysg amodau'r cymorth sydd ar gael trwy'r cronfeydd Ewropeaidd o dan y fframweithiau hyn.

Mae hyn yn briodol ac i'w groesawu. Er nad yw'r iaith yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, cadarnheir hawliau siaradwyr y Gymraeg yng Nghymru gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cydnabyddir y Gymraeg hefyd yn nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er mewn modd gwahanol, mae'r ddau ddarn yma o ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer gwlad lle mae'r Gymraeg yn ganolog i bolisi cyhoeddus.

Os penderfynir cyflwyno fframweithiau cyffredin newydd ar draws y Deyrnas Gyfunol, dylai'r broses o gytuno, cynllunio a gweithredu'r fframweithiau hyn gydnabod ac ymateb i natur Cymru fel gwlad ddwyieithog. Ni ddylai'r fframweithiau cyffredin amharu mewn unrhyw ffordd ar allu'r polisïau Cymreig yn y sectorau a meysydd dan sylw i gefnogi'r iaith Gymraeg ac anghenion ei siaradwyr.

Ar lefel gwbl sylfaenol, golyga hyn na ddylai fframweithiau cyffredin esgeuluso anghenion unigryw mewn perthynas â'r Gymraeg, megis angen i gyfieithu labeli a chyhoeddiadau. Ar lefel uwch, dylid sicrhau eu bod nhw'n galluogi hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg a chyflawni ar gyfer ei siaradwyr a'r cymunedau lle siaredir yr iaith.

⁴ <https://gov.wales/docs/wefo/publications/170620-cross-cutting-themes-key-document-european-social-fund-cy.pdf>, t. 5;

<https://gov.wales/docs/wefo/publications/170620-cross-cutting-themes-key-document-european-regional-development-fund-cy.pdf>, t.5.

⁵ <https://gov.wales/docs/wefo/publications/170620-cross-cutting-themes-key-document-european-social-fund-cy.pdf>, t. 10;

<https://gov.wales/docs/wefo/publications/170620-cross-cutting-themes-key-document-european-regional-development-fund-cy.pdf>, t.11.

4. Ehangu a chryfhau'r gofynion o ran y Gymraeg

Wedi dweud hynny, mae'r trafodaethau am ddyfodol y fframweithiau cyffredin yn cynnig cyfle gwerthfawr i ailymweld â gweithdrefnau presennol y ffrydiau cyllido o ran yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg. Gellid ystyried y testun, dulliau gweithredu a'r dull o werthuso gofynion ac amcanion o ran y Gymraeg. Gellir cyflawni hyn trwy gynnal adolygiad pwrpasol o'r trefniadau presennol ar draws gwahanol gronfeydd Ewropeaidd.

Er enghraifft, o dan y canllawiau presennol nid yw hi'n 'orfodol' i'r gweithrediadau a ariennir gyfrannu at amcanion o ran y Gymraeg. Nid yw'r geiriad presennol yn awgrymu chwaith ei bod hi'n orfodol iddynt weithredu a darparu gwasanaethau'n ddwyieithog. Dylid ystyried cryfhau'r gofynion hynny.

Deallaf hefyd mai, yn hanesyddol, prin yw'r ymyriadau o dan y rhaglenni cymorth Ewropeaidd sy'n targedu siaradwyr y Gymraeg yn rhagweithiol, ac sydd wedi'u teilwra ar gyfer eu hanghenion hwy. Dyma oedd un o gasgliad gwerthusiad RDP yn 2014.⁶ Mynegodd eraill, gan gynnwys y Comisiynydd, farn debyg.⁷ Er hyn, hyd y gwn, dim ond yn llond dwrn o'r prosiectau a dderbyniodd gymorth Ewropeaidd dros y blynyddoedd diwethaf a osododd y Gymraeg wrth galon y prosiectau. Yn eu mysg, dim ond un a lwyddodd i fanteisio ar Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, sef prosiect 'Marchnad Lafur Cymraeg' gan Four Cymru mewn partneriaeth gyda Mentrau Iaith Cymru.⁸

Tybiaf hefyd fod gwerth ailymweld â'r dulliau presennol o fesur a gwerthuso effaith gweithrediadau ar y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae WEFO yn casglu data penodol am y Gymraeg, a gosodir targedau mewn cysylltiad â'r data hwn. Er enghraifft, yn y prosiectau o dan ESF gofynnir am ddata am allu ieithyddol y cyfranogwyr, eu dewis iaith, ac iaith y ddarpariaeth.⁹ Yn ogystal ym mis Mehefin 2015 penderfynodd WEFO gyflwyno dangosyddion ychwanegol ar lefel prosiect er mwyn hwyluso cofnodi arfer da mewn cysylltiad â'r themâu trawsbynciol.¹⁰ (Dylwn danlinellu nad yw hi'n glir i mi i ba raddau y defnyddir dangosyddion tebyg ar gyfer prosiectau o dan y Cynllun Datblygu Gwledig, sy'n dilyn trefn gwerthuso wahanol o gymharu â'r prosiectau ESF ac ERDF).¹¹ Wrth i'r weithdrefn gyllido bresennol ddirwyn i ben, gellir defnyddio'r cyfle i ailymweld â'r mathau o ddata a gesglir a'r targedau a osodir, ac adolygu eu gwendidau a'u cryfderau.

⁶ <http://gov.wales/docs/drah/publications/141114-rural-development-programme-environment-impact-assessment-sept-report-en.pdf>

⁷ Comisiynydd y Gymraeg, Potensial y Gymraeg i gyfrannu at wireddu amcanion Rhaglenni Ariannu Ewropeaidd 2014-2020; Mentrau Iaith Cymru, Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg; [Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd](#) (Ionawr 2014);

⁸ Nod y prosiect hwn yw 'datblygu'r Gymraeg fel catalydd economaidd fyddai'n gyfrwng i ddatblygu ac adfywio y Gymru Wledig'. <http://four.cymru/wordpress/wp-content/uploads/2017/09/Marchnad-Lafur-Cymraeg.pdf>

⁹ <https://gov.wales/docs/wefo/publications/180502-pmc-papers-may-2018-cy.pdf> t.4

¹⁰ <https://gov.wales/docs/wefo/publications/171129-pmc-papers-dec-17-cy.pdf> t.156

¹¹ Strategaeth Monitro a Gwerthuso: Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020 – Diweddariad 2017, <https://gov.wales/docs/wefo/publications/171129-pmc-papers-dec-17-cy.pdf>

Casgliad

Hyderaf y bydd y sylwadau uchod o ddefnydd i chi. Annogaf y Pwyllgor i roi ystyriaeth fanwl iddynt yn ystod yr ymchwiliad.

Comisiynydd y Gymraeg